# Darnau o'r cefnfor sy'n destun anghytuno

GeographyReviewExtras

Mae cyflwyniad i ategu'r erthygl hon ar gael yn:www.hoddereducation.co.uk/geographyreviewextras

## Astudiaeth achos o Fôr De China

Clive Schofield

Mae'r gwledydd o gwmpas Môr De China yn anghytuno ynghylch dyfroedd ac ynysoedd yr ardal. Mae sofraniaeth ac ecsbloetio adnoddau yn faterion trafod. Mae'r erthygl hon yn edrych ar sut mae gwledydd wedi defnyddio eu dylanwad i ennill grym a meddiannu tiriogaeth, ac ar y goblygiadau gwleidyddol ac amgylcheddol.



Menywod ym Mui Ne, Vietnam, yn aros ar lan Môr De China i'r pysgotwyr ddod adref

Sputnik/TopFoto


Mae Môr De China yn un o gefnforoedd pwysicaf y byd a'r cefnfor y mae mwyaf o anghytuno yn ei gylch. Mae anghytuno ynghylch sofraniaeth (perchenogaeth wleidyddol) dros lawer o'i ynysoedd bach a chystadlu i hawlio'r dyfroedd. Mae'r gwrthdaro hwn yn achosi cymhlethdod o ran rheoli amgylchedd morol ac adnoddau gwerthfawr Môr De China.

### Pam mae'r môr hwn yn bwysig?

#### Masnach

Mae Môr De China rhwng arfordir tir mawr Asia a grwpiau ynysoedd Pilipinas, Borneo ac Indonesia. Mae'n gefnfor trofannol mawr o dros 3 miliwn km$^2$ (Ffigwr 1). Mae'n hanfodol i lif masnach forol fyd-eang oherwydd dyma'r cyswllt rhwng Cefnfor India a'r Môr Tawel. Mae tua 90%, yn ôl cyfaint, o nwyddau masnach y byd yn cael eu cludo ar y môr.

Mae llawer o'r gwledydd yn yr ardal hon yn dlawd o ran adnoddau naturiol ond mae ganddyn nhw economïau dynamig, diwydiannol sy'n dibynnu ar fewnforio defnyddiau crai i gynhyrchu nwyddau i'w hallforio ar y môr. Yr amcangyfrif yw bod y llongau sy'n mynd drwy




Ffigwr 1 Cystadleuaeth rhwng hawliadau morol ym Môr De China

# Blwch 1

## Adeiladu ynysoedd

Mae China wedi adeiladu ar raddfa fawr ar nifer o'r ynysoedd bach isel maen nhw'n eu meddiannu ym Môr De China. Er bod y gwledydd eraill sy'n hawlio'r ynysoedd wedi ceisio adeiladu ar yr ynysoedd maen nhw'n eu meddiannu ymysg Ynysoedd Spratly, mae China yn gallu adeiladu ar yr ynysoedd yn gyflymach ac yn fwy eang o lawer na nhw. Er enghraifft, tan yn ddiweddar roedd Riff Mischief (enw addas!) wedi'i orchuddio'n llwyr ar lanw uchel a phrin uwchben lefel y dŵr ar lanw isel. Mae China wedi carthu, dinistrio a malu riff cwrel ac wedi rhoi'r defnydd hwn ar ben y riff, i greu ynys artiffisial sy'n codi'n uwch na lefel llanw uchel. Mae wedi adeiladu rhedfa hir a safleoedd milwrol yma.

### A gewch chi adeiladu eich ynys eich hun?

Mae hyn yn arwain at gwestiwn: A gewch chi adeiladu eich ynys eich hun? Yr ateb yw cewch, ond dim ond yn eich dyfroedd chi – nid mewn dyfroedd sy'n destun anghytuno. Hefyd, does gan ynysoedd artiffisial ddim yr un statws cyfreithiol â rhai sydd wedi ffurfio'n naturiol. Mae UNCLOS (Blwch 2) yn dweud nad oes gan adeileddau o waith dyn yr un statws ag ynysoedd, nad oes ganddynt ddyfroedd tiriogaethol eu hunain ac nad oes iddynt unrhyw arwyddocâd wrth glustnodi ffiniau morol. Yn ôl y gyfraith felly ni chaiff cynlluniau adeiladu ynysoedd China fawr o ddylanwad. Fodd bynnag, mewn cyd-destun geo wleidyddol, efallai bod iddynt fwy o ddylanwad.

Fôr De China yn cludo gwerth dros US$5 triliwn o fasnach bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys tua 25% o'r olew sy'n cael ei gludo ar y môr (dros 15 miliwn o gasgenni y dydd) a thros 50% o'r fasnach fyd-eang mewn nwy naturiol hylifedig.

## Bioamrywiaeth ac adnoddau ffisegol

Mae Môr De China hefyd yn ardal â bioamrywiaeth sydd o bwys byd-eang. Mae'n gartref i gynefinoedd ar riffiau sy'n helpu i gynnal o leiaf 3,365 o rywogaethau pysgod morol. Am ran gymharol fach o'r cefnforoedd, mae cyflenwad anhygoel o bysgod ym Môr De China – tua 12% o ddalfeydd pysgota'r byd, sy'n werth dros US$21 biliwn y flwyddyn. Mae'r adnoddau byw hyn yn werth mwy nag arian. Maen nhw'n rhoi gwaith i o leiaf 3.7 miliwn o bobl ac yn hanfodol i ddiogeledd bwyd cannoedd o filiynau o bobl yn yr ardal.

Mae pobl wedi awgrymu ers amser maith y gallai Môr De China fod yn ffynhonnell bwysig o adnoddau egni ar wely'r môr. Yn 2013, amcangyfrifodd ffynonellau o'r Unol Daleithiau ei bod 'wedi'i brofi ac yn debygol' bod llond tuag 11 biliwn o gasgenni olew a 190 triliwn troedfedd$^3$ o nwy heb eu defnyddio yno. Mae rhai amcangyfrifon o China yn uwch o lawer – ym mis Tachwedd 2012 amcangyfrifodd Cwmni Olew Alltraeth Cenedlaethol China 125 biliwn o gasgenni olew a 500 triliwn troedfedd$^3$ o nwy naturiol. Allwn ni ddim bod yn siŵr am yr olew a'r nwy a allai fod o dan y dyfroedd hyn, oherwydd mae'r cystadlu amdanyn nhw yn golygu ei bod hi bron yn amhosibl eu harchwilio nhw.

## Cystadlu i hawlio ynysoedd

Mae ynysoedd yn ganolog i'r anghytuno dros Fôr De China. Mae gan yr ardal ddaearyddiaeth arfordirol gymhleth â llawer o ynysoedd bach, creigiau a nodweddion riffiau cwrel. Mae'r mwyafrif llethol o'r rhain yn destun cystadlu am hawlio sofraniaeth. Mae dau archipelago ymhlith yr ardaloedd sy'n destun anghytuno – Ynysoedd Paracel yn y gogledd orllewin ac Ynysoedd Spratly yn y de – ac Ynys Pratas a Riff (basle) Scarborough sy'n bell o bob man yng ngogledd ddwyrain a dwyrain Môr De China, yn ôl eu trefn (Ffigwr 1).

## Ynysoedd Spratly

Mae Ynysoedd Spratly yn cynnwys dros 120 o ynysoedd bach, ynysigau, creigiau a riffiau sydd wedi'u gwasgaru dros 240,000 km$^2$ o fôr. Yr amcangyfrif yw bod cyfanswm arwynebedd tir 12 ynys fwyaf Ynysoedd Spratly yn llai na 2 km$^2$ ac mae'r un fwyaf, Itu Aba, ddim ond yn 1.4 km o hyd a 370 m o led.

Yn draddodiadol, doedd y nodweddion bach hyn ddim yn bwysig, heblaw am fod yn beryglon posibl wrth fordwyo. Disgrifiodd y daearyddwr A. G. Findlay nhw yn 1889 fel 'labyrinth o fasleoedd ar wahân' ac maen nhw wedi'u marcio fel 'tir peryglus' ar siartiau mordwyo Morlys Prydain o'r ardal.

Er eu bod nhw'n ymddangos mor ddibwys, mae China, Taiwan, Pilipinas, Malaysia, Brunei a Vietnam yn hawlio'r ynysoedd hyn, yn eu

cyfanrwydd neu'n rhannol. I ddangos pa mor bwysig yw'r anghytuno hwn, mae'r hawlwyr i gyd, heblaw Brunei, wedi meddiannu o leiaf un o'r ynysoedd sy'n destun anghytuno ac wedi gosod garsiwn yno.

## Rôl China

Roedd China, y mwyaf a'r mwyaf pwerus o hawlwyr Môr De China, yn hwyr yn ymuno â'r gêm meddiannu ynysoedd. O ganlyniad, dim ond nodweddion bach iawn oedd ar ôl iddyn nhw eu meddiannu. Yn aml roedd y rhain yn isel iawn ac felly'r llanw uchel yn eu boddi'n rhannol neu'n llwyr. Dyma un rheswm pam mae China yn ddiweddar wedi cychwyn rhaglen uchelgeisiol o adeiladu ynysoedd, er mwyn cynyddu ei phresenoldeb ffisegol ymysg yr ynysoedd sy'n destun anghytuno ym Môr De China (gweler Blwch 1).

Yn y bôn, mae'r anghytuno hwn yn ymwneud â sofraniaeth dros diriogaeth. Er y cynnydd mewn globaleiddio, mae gwladwriaethau tiriogaethol yn dal i fodoli. Mae sofraniaeth yn fyw ac iach yn nwyrain a de ddwyrain Asia. Mae diogelu hawl i diriogaeth, hyd yn oed tiriogaeth fach iawn sy'n ymddangos yn ddiwerth, yn helpu i wneud gweithgareddau'r llywodraethau dan sylw yn gyfreithlon.

## Gwrthdaro rhwng archbwerau?

Agwedd arall ar yr anghtytuno hwn yw'r ffaith bod Môr De China yn ardal â mwy a mwy o gystadlu amdani, a gwrthdaro posibl rhwng China, ei chymdogion ac UDA. Dros y degawdau diwethaf, mae China wedi ceisio ymestyn ei ffin amddiffynnol allan i'r môr. Mae llynges China, Llynges Byddin Rhyddid y Bobl (PLAN: People's



PLAN a Llynges yr Unol Daleithiau yn cynnal ymarferion ar y cyd ym Môr De China yr haf hwn

Liberation Army Navy), wedi bod yn ehangu ac yn moderneiddio, gan ychwanegu llongau tanfor blaengar, ffrigadau a llongau distryw yn ogystal ag awyrennau patrolio'r môr.

Un symbol o gynnydd PLAN oedd cael ei llong awyrennau gyntaf, y Liaoning, a hwyliodd i mewn i Harbwr Hong Kong ym mis Gorffennaf er mwyn arddangos grym China. Lansiodd China ei hail long awyrennau ym mis Ebrill 2017 a'r gred yw ei bod wrthi'n adeiladu rhagor. I gymharu, mae gan yr Unol Daleithiau 19 o longau awyrennau a llongau ymosod amffibiaidd tebyg.

Mae rhyddid mordwyo yn hanfodol bwysig i UDA, prif bŵer y byd ar y moroedd. Mae llinellau cyfathrebu morol o bwysigrwydd byd-eang yn mynd drwy Fôr De China, gan gludo symiau enfawr o fasnach. Mae'r un llinellau cyfathrebu hyn yn caniatáu i Lynges UDA symud rhwng Gorllewin y Môr Tawel a Chefnfor India. Felly, mae Môr De China o ddiddordeb economaidd a strategol uniongyrchol i UDA.

Er mai llynges China yw'r un fwyaf pwerus ~~yn Asia erbyn hyn, mae'n dal i fod yn bell ar ôl~~ Llynges yr Unol Daleithiau o ran maint a gallu. Oherwydd ymddygiad mwy cadarn China, mae UDA wedi cynyddu eu llynges ym Môr De China – rhan o'r hyn sy'n cael ei alw'n 'golyn i Asia'. Ond mae buddiannau byd-eang UDA yn golygu bod eu llynges yn gweithio ar draws cefnforoedd y byd, ac felly wedi'i gwasgaru'n denau. Mewn cyferbyniad, mae PLAN yn canolbwyntio ar


## Blwch 2 Cyfraith y Môr

Mae pob gwlad ond un sy'n ffinio ar Fôr De China wedi llofnodi a chadarnhau Confensiwn 1982 y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr (UNCLOS: United Nations Convention on the Law of the Sea). Yr eithriad yw Taiwan, sydd ddim yn un o aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig. UNCLOS sy'n darparu'r fframwaith cyfreithiol cyffredinol sy'n rheoli hawliadau morol a phennu ffiniau morol lle mae'r hawliadau hyn yn gorgyffwrdd.

Un o lwyddiannau allweddol UNCLOS oedd cytuno ar derfynau, neu led, parthau cenedlaethol. Yn ôl UNCLOS, dydy lled môr tiriogaethol gwlad arfordirol ddim yn cael bod yn fwy na 12 morfilltir oddi wrth linellau sylfaen ar hyd yr arfordir. Cyn hyn, doedd dim cytundeb ynglŷn â therfyn, felly roedd diffiniad UNCLOS yn gam mawr ymlaen. Caiff gwledydd arfordirol hefyd hawlio parth cyffiniol (ar gyfer materion fel tollau) hyd at 24 morfilltir.

Mewn datblygiad mawr, cyflwynodd UNCLOS hefyd gysyniad y parth economaidd cyfyngol (EEZ: exclusive economic zones) lle mae gan y wlad arfordirol hawliau sofran dros adnoddau, ond nid sofraniaeth lawn. Mae gan wladwriaethau hawliau sofran dros wely'r môr oddi ar eu morlinau fel rhan o'u sgafell gyfandirol.

Y tu hwnt i'r hawliadau cenedlaethol hyn i ddyfroedd arfordirol, mae'r cefnforoedd wedi'u rhannu'n barthau rhyngwadol gwely'r môr a'r môr mawr uwchben y rhain (gweler Ffigwr 2).




Ffynhonnell: Schofield ac Arsana, 2012

Ffigwr 2 Parthau morol o dan UNCLOS

Foroedd Dwyrain a De China, sy'n golygu bod gan China oruchafiaeth yn y dyfroedd hyn er bod yr Unol Daleithiau wedi symud mwy o luoedd i'r ardal yn ddiweddar.

Dydy gwrthdaro rhwng China ac UDA, na gwladwriaethau eraill Môr De China, ddim yn anochel wrth gwrs. Mae'r gwladwriaethau hyn i gyd yn elwa o'r fasnach sy'n mynd drwy Fôr De China ac yn dibynnu arni. Mae China hefyd wedi tueddu i ddefnyddio lluoedd paramilwrol fel Gwylwyr y Glannau yn hytrach na'r llynges i weithredu ym Môr De China, gan leihau'r risg o wrthdaro milwrol.

## Hawliadau morol cystadleuol

I wneud pethau'n fwy cymhleth eto, mae holl wladwriaethau Môr De China yn hawlio parthau morol alltraeth (Blwch 2), sy'n cynnwys adnoddau morol gwerthfawr. Gan fod y gwledydd hyn yn amgylchynu Môr De China, mae eu hawliadau morol yn tueddu i gydgyfarfod a gorgyffwrdd. Maen nhw hefyd yn gwneud hawlio moroedd o amgylchedd ynysoedd sy'n destun anghytuno, sy'n anochel yn gwrthdaro â'i gilydd. Dyma sy'n creu'r rhwydwaith cymhleth fel gwe o linellau hawlio sydd i'w weld yn Ffigwr 1.

Hefyd, mae China yn hawlio'r hyn mae'n ei alw'n 'llinell naw toriad' ym Môr De China. Byddai'r gyfres hon o linellau, pe baen nhw'n cael eu huno, yn amgáu tuag 80% o Fôr De China. Dydy China erioed wedi esbonio beth yn union mae'r llinell naw toriad yn ei olygu, ond mae fel arfer yn cael ei hystyried yn hawliad hanesyddol i'r ynysoedd a'r dyfroedd y tu mewn i'r llinell. O fewn y llinell hon, mae China wedi bod yn chwilio am olew ac yn pysgota.

## Pilipinas yn herio China

Mewn achos llys rhyngwladol diweddar rhwng Pilipinas a China, cafwyd dyfarniad am hawliadau morol gan ynysoedd bach ac am hawliad llinell naw toriad China. Mae China wedi gwrthod derbyn y penderfyniad hwn, gan greu mapiau neu ddaearyddiaethau cystadleuol o Fôr De China sy'n anghydweld â'r dyfarniad.

Er i China wrthod cymryd rhan yn yr achos, 12 Gorffennaf 2016 rhoddodd y Tribiwnlys Cyflafareddu ddyfarniad arloesol nad yw ddim ond yn delio â materion Môr De China ond ag elfennau ansicr allweddol yng nghyfraith y môr. Gan fod y tribiwnlys yn seiliedig ar UNCLOS (Blwch 2) dim ond materion yn ymwneud â chyfraith y môr oedd yn gallu cael sylw ganddo – nid perchenogaeth wleidyddol yr ynysoedd sy'n destun anghytuno. Fodd bynnag, mewn buddugoliaeth gyfreithiol ysgubol, gwrthododd y tribiwnlys hawliad llinell naw toriad China a diffiniwyd Ynysoedd Spratly fel 'creigiau' nad oes neb yn gallu hawlio eu moroedd y tu hwnt i fôr tiriogaethol 12 morfilltir.

Penderfynodd y tribiwnlys hefyd fod China wedi:



Safle milwrol Pilipinas ar Ynys Panata yn Ynysoedd Spratly

Newscom/Alamy Stock Photo




Ffynhonnell: Schofield ac Arsana, 2016

**Ffigwr 3** Dyfroedd sy'n destun anghytuno ym Môr De China ar ôl y Dyfarniad Cyflafareddu




Ffynhonnell: Schofield ac Arsana, 2016

Ffigwr 4 Dyfroedd sy'n destun anghytuno ym Môr De China o fewn llinell naw toriad China

- tramgwyddo hawliau Pilipinas mewn dyfroedd oddi ar eu harfordiroedd drwy ymyrryd â'u gweithgareddau pysgota a chwilio am betroliwm, adeiladu ynysoedd artiffisial, a methu ag atal pysgotwyr o China rhag pysgota yno
- achosi difrod difrifol i'r rif f cwrel a thramgwyddo ei hymrwymiad i gynnal ac amddiffyn ecosystemau bregus a chynefin rhywogaethau sy'n brin, dan f ygythiad neu mewn perygl drwy ei gweithgareddau diweddar i adennill tir ar raddfa fawr ac adeiladu ynysoedd artiffisial
- gwneud yr anghytuno'n waeth drwy ddinistrio, yn barhaol, tystiolaeth o gyflwr naturiol nodweddion sy'n destun anghytuno drwy ei holl weithgareddau adeiladu ynysoedd artiffisial (Blwch 1)

## Daearyddiaethau cystadleuol a gwrthdaro yn y dyfodol

O ganlyniad i'r Dyfarniad Cyflafareddu, mae Pilipinas a, drwy estyniad, Malaysia, Brunei ac Indonesia, yn rhydd i hawlio'r môr hyd at 200 morfilltir oddi ar eu harfordiroedd fel rhan o'u parthau economaidd cyfyngol (Blwch 2). Os caiff y dyfarniad ei roi ar waith, bydd hefyd yn lleihau'n sylweddol yr ardal forol ym Môr De China sy'n destun anghytuno, i bocedi 12 milltir o ddŵr o gwmpas yr ynysoedd sy'n destun anghytuno a rhwng taleithiau gerllaw sydd heb osod terfynau eu ffiniau arforol. (gweler Ffigwr 3).

Y broblem yw bod China wedi gwrthod yn gyson y dyfarniad nad oes yna fecanweithiau allai ganiatáu iddo gael ei fynnu. Mae China yn un o bum aelod parhaol Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig ac yn anochel byddai'n atal unrhyw bleidlais fyddai'n arwain at, er enghraifft, osod sancsiwn ar y wlad am beidio derbyn y dyfarniad. Bydd China yn debygol i barhau gyda'u hawl i sofraniaeth dros holl ynysoedd dadleuol Môr De China yn ogystal â'r ardaloedd morol o fewn y llinell naw-toriad (Ffigwr 4).

Mae senario cystadleuol daearyddol Môr De China yn fygythiol. Dyma lwyfan ar gyfer gwrthdaro yn y dyfodol wrth i China geisio mynnu ei 'hawliau hanesyddol' tra bod taleithiau arfordirol eraill yn ymdrechu i ddefnyddio'r adnoddau megis olew a physgod, sy'n gorwedd oddi fewn i'r hyn a ystyrir ganddynt fel 'eu dyfroedd'. Gall hyn arwain at ganlyniadau difrifol i fioamrywiaeth forol werthfawr y rhanbarth a rheolaeth ei physgodfeydd toreithiog. Mae hefyd yn bygwth sefydlogrwydd rhanbarthol a'r rhyddid i fordwyo ar hyd dyfrffyrdd o arwyddocâd byd eang.

## Gweithgareddau

1. Beth yw'r pellter rhwng ynys fwyaf deheuol Ynysoedd Spratly (lleolir yn y coridor y mae Brunei yn ei hawlio) a'r ynys fawr Hainan sy'n perthyn i China?
2. Awgrymwch sut mae daearyddiaeth ffisegol y rhanbarth wedi dylanwadau ar faint hawliadau morol y gwahanol wledydd.
3. Trafodwch pam fod ynysoedd yn aml wedi bod yn achos tensiwn a gwrthdaro rhwng y pwerau cystadleuol.



Newscom/Alamy Stock Photo

Protestwyr y tu allan i lysgenhadaeth China yn Hanoi

### Darllen pellach

*Erthyglau yn y Guardian* am y *Liaoning* yn hwylio i mewn i harbwr Hong Kong: www.tinyurl.com/yb4rokkl ac ail long awyrennau China: www.tinyurl.com/m53cqwr

Yr Athro Clive Schofield yw'r cyfarwyddwr ymchwil yng Nghanolfan Genedlaethol Awstralia dros Ddiogelwch ac Adnoddau'r Cefnfor, Prifysgol Wollongong, Awstralia.

### Pwyntiau allweddol

- Mae Môr De China yn bwysig fel llwybr masnach yn ogystal ag oherwydd ei adnoddau, ac mae'r gwledydd o'i gwmpas yn anghytuno yn ei gylch.
- Mae'r nifer mawr o ynysoedd bach yn y môr yn cymhlethu'r sefyllfa, gan fod gwledydd cyfagos wedi hawlio'r rhain hefyd.
- China yw'r hawlydd mwyaf pwerus, ac mae'n cynyddu ei grym milwrol. Gallai hyn arwain at wrthdaro ag UDA dros ryddid mordwyo.
- O ganlyniad i hawlio ardaloedd morol, mae Pilipinas wedi herio China yn y llysoedd rhyngwladol.
- Mae goblygiadau gwleidyddol ac amgylcheddol i'r cystadlu parhaus am diriogaeth ac adnoddau.